



Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Trefaldwyn
Tŷ Compton, Stryd Lydan, Trefaldwyn, SY15 6PH**

Penderfyniad – symud i adeilad newydd a moderneiddio'r gangen

Ysgrifennaf i gadarnhau y byddwn yn parhau â'n cynnig i symud y gangen uchod o Swyddfa'r Post i Gaffi Ivy House, Church Bank, Trefaldwyn, SY15 6PU, lle bydd yn gweithredu fel un o ganghennau lleol newydd Swyddfa'r Post.

Derbyniwyd 25 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Roedd rhai cwsmeriaid yn croesawu cadw gwasanaethau Swyddfa'r Post yn yr ardal, tra bod eraill wedi mynegi pryder ynghylch mynediad yn y lleoliad newydd ac argaeledd mannau parcio. Roedd yr adborth yma o gymorth i mi ddeall pryderon ein cwsmeriaid ac i sicrhau bod pob gwybodaeth o'r fath yn cael ei hystyried cyn terfynu ein cynlluniau.

Mae symud y gangen hon yn rhan o'n cynlluniau moderneiddio a buddsoddi i ddarparu rhwydwaith Swyddfa'r Post sydd yn gynaliadwy a sicrhau y bydd yn bodloni anghenion cwsmeriaid i'r dyfodol. Fel rhan o'r rhaglen, nod ein cynnig i adleoli Swyddfa Bost Trefaldwyn yw sicrhau gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol yn y tymor hwy trwy ddarparu gwasanaeth mwy modern a hyfyw yn fasnachol. Mae nifer o ffactorau'n cael eu cadw mewn cof wrth ystyried penodiad; yn cynnwys mynediad, maint yr adeilad ac addasrwydd y manwerthwr fydd yn ei gynnal. Mae'r prosesau yr ydym yn eu dilyn wedi eu sefydlu ac yn gadarn a chafodd y gweithredwr newydd, yr unig ymgeisydd i ddatblygu cais, ei benodi ar ôl cwblhau ein proses ymgeisio yn llwyddiannus.

Er fy mod wedi ystyried y sylwadau am barcio yn y lleoliad newydd, mae'n deg dweud bod hon yn broblem y mae llawer o leoliadau yn ei hwynebu yn genedlaethol. Fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn ei ddeall, mae argaeledd mannau parcio ar ochr y ffordd yn fater sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, ond rwyf wedi adolygu hyn ymhellach. Gallaf gadarnhau bod mannau parcio ar ochr y ffordd yn yr ardal gyfagos ar raddfa y gellir ei chymharu â'r gangen bresennol. Rwyf felly'n fodlon y bydd parcio yn y lleoliad newydd yn bodloni anghenion cwsmeriaid sydd yn defnyddio Swyddfa'r Post. I'r rheiny sydd yn dewis cerdded i'r lleoliad newydd, mae palmentydd wedi eu cynnal yn dda ar hyd y llwybr. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo ein cwsmeriaid ymhellach i gael mynediad i'r gangen newydd, bydd y gweithredwr newydd yn mynd at yr awdurdod perthnasol i geisio darparu man croesi diogel yn agosach at yr adeilad.

Mae'n amlwg bod Swyddfa'r Post yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, yn arbennig cwsmeriaid oedrannus ac anabl ac rydym eisiau gwneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl cyn i'r gangen newydd agor. Mae'r gweithredwr newydd yn deall yn iawn eu bod yn gyfrifol am sicrhau bod eu hadeilad yn bodloni'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac mae'n bleser gennyf gadarnhau y byddant yn gwneud addasiadau i wella hygyrchedd i gwsmeriaid wrth yr ail fynedfa i'r adeilad.

Bydd mynediad wrth y brif fynedfa trwy risiau a rheilen law, ond er mwyn darparu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn, bydd mynediad wrth yr ail fynedfa yn cael ei wneud yn wastad. Mae'n bleser gennyf hefyd gadarnhau y bydd y gweithredwr newydd yn gosod palmant is y tu allan i'r ail fynedfa er mwyn galluogi mynediad haws i mewn i'r adeilad, er mwyn cefnogi ein cwsmeriaid ymhellach i gael mynediad i'r gangen newydd.

Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â manylebau Swyddfa'r Post, gan sicrhau bod digon o le i'r Swyddfa Bost leol newydd weithredu ar y cyd â'r siop fanwerthu. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'r gweithredwr newydd yn ymwneud â'r cynllun mewnol a bydd rhai gosodiadau yn cael eu haildrefnu neu eu dileu er mwyn sicrhau bod mynediad clir i mewn i'r adeilad. Bydd llwybrau a'r man aros yn cael eu cadw'n rhydd rhag rhwystrau a bydd lle digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer cwsmeriaid ac i gadair olwyn symud o gwmpas y siop a chael mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post heb anhawster.

Bydd y Swyddfa Bost leol newydd yn gweithredu o fan gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop gan alluogi cwsmeriaid i gael ystod eang o gynnyrch Swyddfa'r Post ynghyd â thrafodion y caffi. Mae trafodion Swyddfa'r Post wedi eu cynllunio i fod yn gyflym ac yn effeithlon i'w gweithredu er mwyn galluogi gwasanaeth cwsmeriaid cyflym ac effeithiol a helpu i leihau amserau aros. Mae hyn yn golygu na fydd nifer fach o drafodion sydd yn cymryd mwy o amser, sydd yn gymhleth neu'n golygu gwaith papur, ar gael yn y gangen newydd. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau y bydd y gangen newydd yn dal i ddarparu ar gyfer y mwyafrif helaeth o gynnyrch a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Gellir cael gafael ar y nifer fach iawn o wasanaethau na fydd bellach ar gael yn Swyddfa Bost y Trallwng y gellir ei chyrraedd ar wasanaeth bws uniongyrchol.

Mae'r newid hefyd yn golygu bod oriau agor Swyddfa'r Post yn cyd-fynd â rhai'r siop er mwyn i drigolion lleol elwa ar oriau agor hwy yn cynnwys prynhawn dydd Sadwrn a dydd Sul. Mae hyn yn golygu y gall cwsmeriaid ledaenu eu hymweliadau a chael mynediad i'n gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos ac ar adegau fydd yn fwy cyfleus iddyn nhw. Ceir manylion llawn y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn ynghyd â rhestr o'r cynnyrch a'r gwasanaethau fydd ar gael.

Rwyf wedi ystyried ein cynnig gwreiddiol, yr adborth a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar drigolion lleol a'r gymuned ehangach yn ofalus. Ar ôl adolygu mynediad cerddwyr a cherbydau i'r safle newydd hefyd, rwyf yn hyderus bod y gangen newydd mewn lleoliad addas ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i fodloni anghenion cwsmeriaid, tra'n helpu i ddarparu hyfywedd hirdymor a chynaliadwyedd i'r dyfodol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ar ddydd Iau 29 Mehefin 2017, a bydd y gangen newydd yn agor yng Nghaffi Ivy House, Church Bank, am 13:00 ar ddydd Gwener 30 Mehefin 2017. Os oes unrhyw newidiadau na ellir eu rhagweld i'r amserlen sydd yn golygu y bydd y dyddiadau hyn yn newid, bydd posteri'n ymddangos yn y gangen i hysbysu cwsmeriaid. Wrth drosglwyddo'r gangen, gall cwsmeriaid sydd angen cyfleusterau Swyddfa'r Post ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post sy'n gyfleus. Ceir manylion cangen amgen o Swyddfa'r Post isod er cyfleustra i chi:

- Swyddfa Bost y Trallwng, 31-32 Stryd Lydan, Y Trallwng, SY21 7RR

Mae copi o'r llythyr hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gofynnir i chi roi côd ar gyfer y gangen hon: 303641

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Côd Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, fel y cytunwyd gan y corff gwarchod defnyddwyr statudol annibynnol. Mae copi llawn o'r Côd Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu drwy gysylltu â ni yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch i chi am ystyried ein cynnig.

Yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwr y Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

-  postofficeviews.co.uk
-  comments@postoffice.co.uk
-  Llinell Gymorth i Gwsmeriaid: 03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
-  FREEPOST Your Comments
- Noder mai dyma'r cyfeiriad llawn ac nad oes angen unrhyw fanylion pellach.**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael i'w gweld ar-lein, i'w gweld - sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr côd QR ar eich ffôn, mae un ar gael yn eich app store.



I gael y wybodaeth hon ar fformat gwahanol, er enghraifft mewn print mwy, ar sain neu mewn braille, cysylltwch â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 3457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Trefaldwyn															
Cyfeiriad	Caffi Ivy House Church Bank Trefaldwyn SY15 6PU														
Oriau agor	<table><tr><td>Dydd Llun</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Dydd Mawrth</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Dydd Mercher</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Dydd Iau</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Dydd Gwener</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Dydd Sadwrn</td><td>09:00 – 17:00</td></tr><tr><td>Dydd Sul</td><td>09:00 – 17:00</td></tr></table>	Dydd Llun	09:00 – 17:30	Dydd Mawrth	09:00 – 17:30	Dydd Mercher	09:00 – 17:30	Dydd Iau	09:00 – 17:30	Dydd Gwener	09:00 – 17:30	Dydd Sadwrn	09:00 – 17:00	Dydd Sul	09:00 – 17:00
Dydd Llun	09:00 – 17:30														
Dydd Mawrth	09:00 – 17:30														
Dydd Mercher	09:00 – 17:30														
Dydd Iau	09:00 – 17:30														
Dydd Gwener	09:00 – 17:30														
Dydd Sadwrn	09:00 – 17:00														
Dydd Sul	09:00 – 17:00														
Pellter	95 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir bryniog.														
Cynnyrch a Gwasanaethau	Bydd y rhan fwyaf o gynnyrch a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal ar gael.														
Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd	Mynediad a chyfleusterau Mae dau fynedfa i'r adeilad. Mae'r brif fynedfa trwy risiau gyda rheilen law. Bydd yr ail fynedfa trwy ddrws llydan â mynediad gwastad. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn. Parcio Gellir parcio ar ochr y ffordd gerllaw.														
Manwerthu	Caffi														
Dyddiad Adleoli	13:00 ar ddydd Gwener 30 Mehefin 2017														

Gwasanaethau sydd ar gael yn Swyddfa Bost® Trefaldwyn											
Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 223344 yn fwy na pharod i'ch helpu gydag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion uchafswm gwerth trafodion i chi. Gall cwsmeriaid siopa ar-lein hefyd yn www.postoffice.co.uk											
	Cangen newydd										
Post											
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth	✓										
Stampiau, llyfrau stampiau (dosbarth 1 ^{af} 6 a 12 yn unig, 2 ^{il} ddosbarth 12 yn unig)	✓										
Stampiau arbennig (cyhoeddiad Nadolig yn unig) a labeli postio	✓										
Signed For	✓										
Special Delivery	✓										
Dychweliadau siopa o'r cartref	✓										
Parseli mewndirol bach, canolig a mawr	✓										
Parseli Express a chontract	✓										
Post Lluoedd Prydain (BFPO)	✓										
Llythyrau a chardiau post rhyngwladol (yn cynnwys signed for ac Airtsure)	✓										
Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau wedi eu hargraffu hyd at 5kg	✓										
Parseli Rhyngwladol Parcelforce Worldwide	✓										
Eitemau ar gyfer y deillion (mewndirol a rhyngwladol)	✓										
Gwasanaeth ailgyfeirio y Post Brenhinol	✓										
Local Collect	✓										
Drop & Go	✓										
Codi arian, adneuo a gwneud taliadau											
Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post	✓										
Codi arian, adneuo, ymholiadau balans ac adneuo sic mewn amlen ar gyfer bancio personol a busnes (cerdyn, côd bar neu â llaw)	✓										
Archebion post	✓										
Moneygram	✓										
Rhoi newid	✓										
Talu biliau											
Talu biliau (cerdyn, côd bar neu â llaw)	✓										
Ailwefru allweddi	✓										
Transcash (heb gôd bar)	✓										
Gyrru											
Treth car	✓										
Trwyddedau											
Trwyddedau pysgota â gwialen	✓										
Teithio											
Arian teithio wedi ei archebu ymlaen llaw	✓										
Arian teithio yn ôl y galw	Ewros/Doleri										
Atgyfeirio yswiriant teithio	✓										
Gwirio ac Anfon Pasbort	x										
Ychwanegiadau ac E-dalebau Ffonau Symudol											
	✓										
Talu gyda sic											
	✓										
Nid yw'r cynnyrch ag x ar gael yn Swyddfa Bost y Trallwng , 31-32 y Stryd Lydan, y Trallwng, SY21 7RR											
<table> <tr> <td>Oriau agor:</td><td></td></tr> <tr> <td>Llun ac Iau</td><td>08:45 - 17:30</td></tr> <tr> <td>Maw</td><td>09:30 - 17:30</td></tr> <tr> <td>Mer a Gwe</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr> <td>Sad</td><td>09:00 - 13:00</td></tr> </table>		Oriau agor:		Llun ac Iau	08:45 - 17:30	Maw	09:30 - 17:30	Mer a Gwe	09:00 - 17:30	Sad	09:00 - 13:00
Oriau agor:											
Llun ac Iau	08:45 - 17:30										
Maw	09:30 - 17:30										
Mer a Gwe	09:00 - 17:30										
Sad	09:00 - 13:00										